



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen Canfyddiadau Allweddol ynghylch Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb o'r Ymchwil

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 75/2014

Mae'r Cyfnod Sylfaen (a gyflwynwyd yn 2008) yn cynnig cwricwlwm o ddysgu trwy brofiad, sy'n briodol yn ddatblygiadol, i blant 3 i 7 oed yng Nghymru. Nod y gwerthusiad annibynnol (dan arweiniad WISERD), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yw gwerthuso pa mor dda y caiff ei roi ar waith, beth fu ei effaith, a ffyrdd o'i wella. Mae'r gwerthusiad tair blynedd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cymysg ar raddfa genedlaethol a lleol.

Dyma un o bedwar papur sy'n canolbwyntio ar **weithredu**. Mae'n defnyddio 604 o ymatebion gan ysgolion a lleoliadau i arolwg, 37 cyfweiliad ag Awdurdodau Lleol, pedwar cyfweiliad â lleoliadau nas cynhelir, 357 o gyfweiliadau ag ymarferwyr a 41 o arsylwadau mewn ysgolion sy'n astudiaethau achos.

## Canfyddiadau Allweddol

- Roedd y mwyafrif o'r ymarferwyr/rhanddeiliaid allweddol a gafodd eu cynnwys mewn cyfweiliadau ac arolygon wedi croesawu'r Cyfnod Sylfaen yn wreiddiol gyda chymysgedd o 'gyffro' a 'rhyddhad' am ei fod yn cynnig **mw y hyblygrwydd, rhyddid, annibyniaeth ac arfer priodol yn ddatblygiadol**.

- Fodd bynnag, dywedodd 44% o benaethiaid a 51% o arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir fod ganddynt **amheuon** am y Cyfnod Sylfaen pan gafodd ei gyflwyno yn y lle cyntaf.

- Roedd y lefel fwyaf o **wrthwynebiad** tuag at y Cyfnod Sylfaen ymhlith **athrawon Cyfnod Allweddol 2**, yna **gan rieni/gofalwyr**.

- Dywedodd 54% o benaethiaid eu bod wedi gwneud newidiadau strwythurol i reolaeth a threfniant eu hysgolion o ganlyniad i'r Cyfnod Sylfaen, yn enwedig o ran **newidiadau i'r amgylchedd ffisegol ac i uwch reolwyr**, er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd y Cyfnod Sylfaen.

- Roedd **barn/agwedd gadarnhaol** tuag at y Cyfnod Sylfaen **gan benaethiaid** yn yr ysgolion sy'n astudiaethau achos yn cysylltu'n gryf â'r graddau yr oedd yn cael ei **weithredu'n llawn mewn ystafelloedd dosbarth**.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

## **Canfyddiadau Allweddol Pellach**

Roedd amheuon cychwynnol penaethiaid tuag at y Cyfnod Sylfaen yn aml yn wahanol iawn i farn athrawon **yn yr un ysgol**.

Er bod y Cyfnod Sylfaen wedi'i gyflwyno fesul tri cham<sup>1</sup>, mae llawer mwy o amwysedd o safbwynt pryd y dywedodd penaethiaid ac arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir fod eu hysgolion/lleoliadau wedi dechrau gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, gan efallai adlewyrchu'r ffaith bod rhai ohonynt o'r farn **eu bod eisoes yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen** neu y bu **rhywfaint o oedi wrth bontio i'r Cyfnod Sylfaen**.

Hefyd, mae'n glir fod **ysgolion peilot ar y cyfan yn fwy brwdfrydig** ynghylch ei gyflwyno na mwyafrif yr ysgolion eraill (yr ysgolion Cychwyn Cynnar a'r ysgolion Cyflwyno Terfynol).

Roedd penaethiaid **ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy pryderus am gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen** na'u cymheiriaid cyfrwng Saesneg – dywedodd 52% fod

ganddynt amheuon neu nad oeddent yn edrych ymlaen ato, o gymharu â dim ond 40% o benaethiaid cyfrwng Saesneg.

Codwyd pryderon niferus gan benaethiaid **am weithredu'r Cyfnod Sylfaen ar lefel genedlaethol**, gan gynnwys: yr angen i ddiwygio, addasu a diweddarau pecynnau hyfforddiant cenedlaethol i fodloni anghenion lleol; yr amgyffrediad y byddai cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn 'niweidio' y Cyfnod Sylfaen; a bod deunyddiau arweiniad Llywodraeth Cymru naill ai'n rhyw amwys neu nad oeddent yn ddigon eglur.

Trwy gyfweiliadau ag ymgynghorwyr Awdurdodau Lleol ac o'r arsylwadau ar astudiaethau achos, mae'n ymddangos mai'r **grwpiau blwyddyn hŷn (e.e. Blwyddyn 2) sydd wedi bod drwy'r 'newid' addysgol lleiaf yn sgil cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen**. Fodd bynnag, mae hyn **yn gyfan gwbl i'r gwrthwyneb i'r amgyffrediad ymhlith yr ymatebwyr i'r arolwg cenedlaethol o ysgolion** fod y Cyfnod Sylfaen yn debygol o arwain at y newid mwyaf mewn

---

<sup>1</sup> Cyfnod Peilot (2004/05); Cyfnod Cychwyn Cynnar (2006/07); Cyfnod Cyflwyno Llawn (2009/10).

dosbarthiadau Blwyddyn 2 (dywedodd 65% y byddent yn sylweddol wahanol) a byddai'r newid lleiaf mewn dosbarthiadau Meithrin (dywedodd 46% mai ychydig iawn o wahaniaeth a fyddai wedi bod yn y rhain).

Eto i'r gwrthwyneb, **roedd lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn disgwyl gweld mwy o wahaniaethau yn eu lleoliadau** (ar gyfer plant tair a phedair oed) nag yr adroddwyd ar gyfer dosbarthiadau Meithrin mewn ysgolion (adroddodd 31% a 9%, yn y drefn honno, fod gwahaniaethau sylweddol o gymharu â'r hyn a ddarparwyd yn flaenorol).

Hefyd, mae'n werth datgan na ddarganfuom unrhyw batrymau neu berthynas ddirnadwy rhwng faint o **newid** yr adroddwyd amdano a nodweddion eraill ysgolion neu athrawon.

Roedd dros ddau o bob tri Arweinydd y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir o'r farn bod **cwricwlwm newydd y Cyfnod Sylfaen a'r Meysydd Dysgu Cysylltiedig yn welliant** o gymharu â'r cwricwlwm blaenorol.

Roedd amgyffrediad bod un o'r **prif welliannau i'r cwricwlwm** o ganlyniad i'r Cyfnod Sylfaen ym maes **Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol** (dywedodd 51% o brif ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen fod hyn wedi bod yn welliant sylweddol).

**Adroddwyd am y gwelliannau lleiaf o ran Datblygiad y Gymraeg**, lle y dywedodd 32% o ymatebwyr na fu'r Cyfnod Sylfaen yn ddim gwahanol neu'n waeth.

**Roedd yr amgyffredion o'r rhwystrau rhag gweithredu yn amrywio yn ôl pwy oedd yn ateb y cwestiwn.** Er enghraifft, pwysleisiodd ymgynghorwyr Awdurdodau Lleol fod **lefelau dealltwriaeth ac agweddau** tuag at y Cyfnod Sylfaen ymhlith ymarferwyr ysgol yn rhwystr mawr. I'r gwrthwyneb, roedd penaethiaid yn fwy tebygol o ddweud bod **diffyg cyllid ac adnoddau** (63%) a **chyfyngiadau i amgylchedd ffisegol eu hysgol** (62%) yn rhwystrau allweddol.

Hefyd, mae'n werth nodi bod tuag un o bob pedwar pennaeth wedi adrodd am bryderon am fodloni'r

**cymarebau oedolion a phlant**  
newydd.

Awduron: Chris Taylor, Samuel  
Waldron a Mirain Rhys (Prifysgol  
Caerdydd).

ISBN: 978-1-4734-1854-7

17 Gorffennaf 2014